The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

# Nodyn cyfarfod

| | |
|---|---|
| **Enw'r prosiect** | Piblinell Carbon Deuocsid HyNet North West |
| **Cyfeirnod ffeil** | EN070007 |
| **Statws** | **TERFYNOL** |
| **Awdur** | Yr Arolygiaeth Gynllunio |
| **Dyddiad** | 14 Ebrill 2021 |
| **Cyfarfod gyda** | ENI, Progressive Energy Limited, WSP |
| **Lleoliad** | Microsoft Teams |
| **Amcanion y cyfarfod** | Diweddariad ar y Prosiect |
| **Dosbarthiad** | Yr holl fynychwyr |

## Crynodeb o'r pwyntiau allweddol a drafodwyd a chyngor a roddwyd

Cynghorodd yr Arolygiaeth Gynllunio (yr Arolygiaeth) y byddai nodyn o'r cyfarfod yn cael ei wneud a'i gyhoeddi ar ei gwefan yn unol ag adran 51 Deddf Cynllunio 2008 (PA2008). Ni fyddai unrhyw gyngor a roddwyd o dan adran 51 yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol y gallai ymgeiswyr (neu eraill) ddibynnu arno.

## Atgrynhoad o Brosiect Piblinell Carbon Deuocsid HyNet North West

Rhoddodd yr Ymgeisydd atgrynhoad o'r cynllun gyda'r wybodaeth a ddarparwyd yn y Cyfarfod Cychwynnol a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2020. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd y bydd cais ar gyfer Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO) ar gyfer y biblinell carbon deuocsid ($CO_2$) o Stanlow i safle ger y Fflint, a byddai'n cynnwys y gwaith arfaethedig canlynol:

- Gosodiad Uwchlaw'r Ddaear (AGI) Grinsome Road;
- AGI Safle Alcohols;
- Piblinell a adeiledir yn newydd (hyd at 20") rhwng AGI Grinsome Road ac AGI Safle Alcohols;
- Piblinell 36" a adeiledir yn newydd o AGI Safle Alcohols i AGI y Fflint;
- Falfiau bloc; a
- Chysylltiad AGI y Fflint gyda'r biblinell bresennol

Cadarnhaodd yr Ymgeisydd nad oes unrhyw fwriad i wneud cais am gyfarwyddyd a35 ar gyfer unrhyw elfennau o'r cynllun, am fod yr Ymgeisydd o'r farn fod yr holl gynigion yn cydweddu o fewn y diffiniad o "Biblinellau" yn Neddf Cynllunio 2008.

## Diweddariad ar y Prosiect

Darparodd yr Ymgeisydd y diweddariadau allweddol ar y prosiect a newidiadau ers y cyfarfod blaenorol i'r Arolygiaeth. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd:

- Bod cyllid grant Ymchwil ac Arloesi yn y DU (UKRI) wedi'i gadarnhau ar 1 Mawrth 2021.
- Gwaith addasu ar y seilwaith piblinell 24" presennol, gan gynnwys gosod falfiau bloc, cryfhau a dargyfeiriadau. Eglurodd yr Ymgeisydd bod y gwaith hwn wedi'i lywio gan y profion sensitifrwydd achosion gwaethaf. Ochr yn ochr â hynny, mae astudiaethau'n mynd rhagddynt i gwmpasu'r hapddigwyddiadau achos gwaethaf. Holodd yr Arolygiaeth ynghylch risgiau Iechyd a Diogelwch ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn, a chadarnhaodd yr Ymgeisydd y bydd Asesiad Risg Meintiol (QRA) yn cael ei gynnal.
- Mae cydsyniadau sy'n bodoli wedi'u hadolygu, ac mae strategaeth gydsynio'r prosiect wedi'i diweddaru; bydd yn ofynnol hefyd gwneud newidiadau i awdurdodiadau cyfredol sy'n bodoli ar gyfer seilwaith sydd wedi'i ail-bwrpasu.

## Gwaith sy'n Destun Ceisiadau TCPA (Deddf Cynllunio Gwlad a Thref)

Dywedodd yr Ymgeisydd y byddai gwaith addasu i seilwaith y biblinell bresennol, y biblinell ar y blaendraeth a Therfynell y Parlwr Du wedi'i leoli yng Nghymru ac ni ellir ei drin felly fel datblygiad cysylltiedig. Eglurodd yr Ymgeisydd bod y gwaith hwn i gael cydsyniad trwy geisiadau ar wahân o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd).

Bydd cais adran 73 TCPA yn cael ei wneud i amrywio cydsyniad cynllunio'r biblinell ar y blaendraeth, er mwyn newid neu ddileu'r amod sy'n pennu terfyn amser ar gyfer tynnu'r biblinell wreiddiol ar ôl ei datgomisiynu, fel y gellir ei hail-bwrpasu.

Cadarnhaodd yr Ymgeisydd ei fod yn bwriadu defnyddio Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO) i awdurdodi caffael yn orfodol y biblinell bresennol a ddargyfeiriwyd ar gyfer $CO_2$ i sicrhau'r tir a'r hawliau angenrheidiol.

Eglurodd yr Ymgeisydd ei fod yn bwriadu i'r ceisiadau TCPA gael eu caniatáu cyn cyflwyno'r cais DCO, ond mae'n bosibl cyflwyno'r cais DCO cyn bod cydsyniadau TCPA yn cael eu rhoi.

## Cydsyniadau/Strategaeth AEA a Chwmpasu AEA

Cadarnhaodd yr Ymgeisydd y bydd ffin llinell goch y DCO sydd i'w darparu adeg Cwmpasu yn cynnwys graddfa fwyaf yr holl waith adeiladu parhaol a dros dro posibl fel sy'n ofynnol fel rhan o'r Datblygiad Arfaethedig. Bydd y Datganiad Amgylcheddol yn ystyried effeithiau cronnol y prosiect, gwaith addasu sydd i gael cydsyniad trwy geisiadau TCPA ar wahân a chaniatadau yn y dyfodol nad ydynt wedi'u cydsynio eto.

Cynghorwyd yr Ymgeisydd gan yr Arolygiaeth y byddai'n rhaid i unrhyw Ddatganiad Amgylcheddol ddarparu disgrifiad clir o'r elfennau sy'n dod o dan y DCO a'r rheiny a gwmpesir gan gyfundrefnau cydsynio eraill.

## Rhaglen

Amlinellodd yr Ymgeisydd y rhaglen ddangosol ar gyfer y DCO a’r TCPA. Mae ymgynghoriad anstatudol i fod i ddechrau ym mis Mehefin 2021 (bydd hwn yn ymdrin â’r ceisiadau DCO a TCPA gyda’i gilydd), gyda’r bwriad o gyflwyno’r cais DCO yn ail chwarter 2022. Mae’r Ymgeisydd yn bwriadu cyflwyno Ffeil Siâp System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) tuat at ddiwedd Ebrill, gyda Chais Cwmpasu i ddilyn ym mis Mai. Mae’r Ymgeisydd o’r farn y dylai’r cydsyniadau TCPA gael eu rhoi yn ail chwarter 2022.

## Mynediad i Dir ac Arolygon

Cadarnhaodd yr Ymgeisydd bod llythyrau mynediad a thrwyddedau arolwg wedi’u rhoi yn Chwefror 2021 a’i fod wedi dechrau arolygon ecolegol lle’r oedd mynediad i dir wedi’i sicrhau. Dywedodd yr Ymgeisydd ei fod yn ymgysylltu’n barhaus gyda’r perchnogion tir i sicrhau trefniadau mynediad sydd heb eu gwneud eto.

Cadarnhaodd yr Ymgeisydd nad yw’n disgwyl y bydd unrhyw geisiadau a53 yn cael eu gwneud cyn cyflwyno’r cais DCO, ac y bydd strategaeth a172 yn cael ei defnyddio yn lle hynny, os bydd angen.

Gofynnodd yr Arolygiaeth am i’r wybodaeth am y prosiect ar gyfer tudalen y prosiect gael ei darparu ymhell cyn unrhyw Gais Cwmpasu fel y gellir sefydlu tudalen a blwch negeseuon e-bost y prosiect gan ddefnyddio’r enw a’r wybodaeth gywir ar gyfer y prosiect. Bydd angen i’r wybodaeth hon gael ei chyfieithu i’w chyhoeddi ar safle Cymraeg y prosiect.

## Diweddariad i Randdeiliaid a Diweddariad Ymgynghori

Cynhaliodd yr Ymgeisydd ddau gyfarfod gyda Natural England a Cyfoeth Naturiol Cymru i gytuno ar fethodolegau arolwg ar gyfer yr Asesiadau Amgylcheddol. Mae’r Ymgeisydd wrthi’n datblygu strategaeth ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid ar gyfer y cais DCO a’r cais TCPA ar wahân. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd y byddai ymgynghoriad anstatudol ar y DCO yn cael ei gynnal ym Mehefin 2021.

Holodd yr Arolygiaeth ynghylch ymgysylltu yn Gymraeg; cadarnhaodd yr Ymgeisydd fod tîm cyfieithu Cymraeg yn rhan o’r Tîm Cyfathrebu, ac y bydd cyfathrebiadau’n cael eu cyhoeddi’n ddwyieithog.

## Cofrestru’r Prosiect

Cadarnhaodd yr Ymgeisydd fod cwmni cyfrwng at ddibenion arbennig wedi’i ffurfio (sy’n berchen i gwmni’r grŵp Eni) ac mai y nhw fydd yr Ymgeisydd DCO.

## Penderfyniadau penodol / camau dilynol yn angenrheidiol?

Cytunwyd at y camau gweithredu canlynol:

- Yr Ymgeisydd i ddarparu’r wybodaeth berthnasol i’r Arolygiaeth er mwyn sefydlu tudalennau’r prosiect;
- Yr Arolygiaeth i sefydlu tudalennau a blwch negeseuon e-bost y prosiect, pan fydd y wybodaeth berthnasol wedi’i darparu gan yr Ymgeisydd.